

CLUB LIFE

Empower, Engage, Sustain

Twitter

Beth yw Twitter?

- Rhwydwaith gwybodaeth i'r holl glybiau, Awdurdodau Lleol ac aelodau yw Twitter.
- Mae Twitter yn wasanaeth i ffrindiau, teulu a chydweithwyr, i gyfathrebu a chadw mewn cysylltiad drwy gyfnewid negeseuon cyflym ac aml.
- Mae Twitter yn ymwneud â rhyngweithio rhwng aelodau Hoci Cymru.

Sut mae defnyddio Twitter?

Drwy fewngofnodi i www.twitter.com o gyfrifiadur personol, gliniadur, ffôn neu unrhyw ddyfais arall sy'n cysylltu â'r rhyngwyd. Bydd rhaid i chi greu cyfrif gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. Dylai eich enw defnyddiwr fod yn debyg i'ch enw, oherwydd mae hyn yn ei gwneud yn haws i bobl chwilio am eich proffil, ee, @JohnDavies1 neu @KellyDavies44.

Felly beth yw 'trydar'?

- Yr elfen greiddiol yn Twitter yw darnau bychain o wybodaeth sy'n cael eu galw'n 'trydar' neu 'negeseuon trydar'.
- Mae negeseuon trydar yn gallu bod am unrhyw beth rydych chi'n ei ddymuno, a rhoi gwybodaeth i bobl eraill.
- Nid oes posib i neges drydar fod yn fwy na 140 o lythrennau.
- Gall gynnwys doler i wefan am ragor o wybodaeth.
- Gellir cynnwys llun/delwedd.
- Mae defnyddio hashnod (#) yn cysylltu eich neges â negeseuon tebyg.

Esiaml:



Pwy yw fy nilynwr i?

- Pobl sy'n eich dilyn chi a'ch llinell amser yw eich dilynwr chi
- Gallwch ddilyn pobl ond does dim rhaid iddyn nhw eich dilyn chi'n ôl (ac i'r gwrthwyneb)
- Mae negeseuon trydar y rhai rydych yn ieu dilyn yn ymddangos ar eich llinell amser
- Mae eich negeseuon trydar chi'n ymddangos ar linell amser y rhai sy'n eich dilyn chi

For more information, visit:

www.hockeywales.org.uk/play/club-life



Creu neges

Click on compose a tweet

Insert a web page by copy and pasting the URL you want to share.
Check out <http://www.shorturl.com/>

Location of tweet

140 characters this will let you know if you go over the limit

Add a photo by clicking this icon, and searching on you computer for relevant image

When finished hit that TWEET button.
Your tweet will now appear in your timeline for all your followers (and visitors to your timeline) to see

Beth yw 'Aildrydar' ac 'Ateb'?

- Os bydd rhywun yn hoffi eich neges, efallai y bydd yn "aildrydar" y neges i'w ddilynwyr.
- Os ydych chi'n hoffi neges rhywun arall neu'n cytuno â'r hyn mae'n ei ddweud (neu ddim) ac eisiau ei rannu gyda'ch dilynwyr, gallwch "aildrydar" y neges.
- I aildrydar, cliciwch ar y botwm RETWEET
- Bydd yn ymddangos yn union yr un fath, gyda sylw'n cydnabod eich bod wedi aildrydar neges rhywun arall.
- Cewch 'ateb' neges drydar i ffurfio sgwrs gyhoeddus am neges rhywun.
- Os nad ydych eisiau sgwrs gyhoeddus, cewch anfon Neges Uniongyrchol (DM) at rywun drwy bwysu'r eicon neges ar ei broffil.

Beth ddylwn i ei ysgrifennu yn adran bywgraffiad fy mhroffil?

- Unrhyw beth sy'n disgrifio pwy ydych chi a beth yw eich diddordebau.
- Os ydych chi'n defnyddio eich cyfrif at ddibenion gwaith, dylech nodi mai eich safbwyntiau chi eich hun rydych chi'n eu mynegi.
- Dylai eich negeseuon fod yn broffesiynol bob amser, gan osgoi pynciau dadleuol.
- Gwnewch yn siŵr bod eich proffil yn ddifyr ac yn eich cynrychioli chi a'ch cwmni.

Pethau i'w gwneud a phethau i'w hosgoi ...

- Peidiwch â bod yn rhy bersonol a pheidiwch â chymryd rhan mewn trafodaethau a allai adlewyrchu'n wael ar eich sefydliad
- Cofiwch y bydd unrhyw beth y byddwch yn ei aildrydar yn ymddangos i'ch dilynwyr i gyd
- Byddwch yn ymwybodol o'ch cynulleidfia. Nid oes posibil rheoli pwy sy'n eich dilyn chi, gan gynnwys chwaraewyr ifanc.
- Ni ddylid rhoi sylw i unrhyw broblemau neu bryderon yn gyhoeddus – gwnewch yn siŵr eich bod yn broffesiynol wrth roi sylw i broblemau.

For more information, visit:

www.hockeywales.org.uk/play/club-life

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU